WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ymgynghoriad ynghylch Ffioedd 2016-17 Crynodeb

# Ymgynghoriad ynghylch Ffïoedd 2016-17 – Crynodeb

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hymgynghoriad ynghylch ffïoedd ar gyfer 2016-17 ar 4 Medi 2015 a chafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion erbyn y dyddiad cau estynedig, sef 16 Hydref. Er nad oedd y nifer yn fawr, roeddem yn falch o gael ymatebion o bob un o'r sectorau a gaiff eu harchwilio gennym.

Roedd nifer o'r ymatebion yn fodlon â'r cynigion fel y'u cyflwynwyd. Yn achos y rheini a ddarparodd sylwadau ychwanegol, daeth y themâu canlynol i'r amlwg:

## Dulliau archwilio

- Roedd rhai yn galw am esboniad gwell ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud i greu dull archwilio mwy effeithlon/effeithiol. Byddai'r cyrff a gaiff eu harchwilio'n hoffi ein gweld yn arloesi mwy wrth gyflawni ein dyletswyddau archwilio, gyda'r bwriad o leihau costau/ffïoedd, yn unol â'r gostyngiadau yng nghyllidebau ein cleientiaid.

- Roedd rhai yn galw am gynllunio gwaith archwilio'n well (i alluogi cleientiaid i baratoi'n well) er mwyn cynorthwyo i leihau costau.

## Cyfraddau ffïoedd

- At ei gilydd, cafwyd neges gyson a oedd yn croesawu'r bwriad i rewi cyfraddau fesul awr am yr ail flwyddyn, yn dilyn gostyngiadau blaenorol, a rhoddwyd rhywfaint o bwysau i fynd ymhellach. Cafwyd cefnogaeth eang i gyllido'r Fenter Twyll Genedlaethol o Gronfa Gyfunol Cymru, ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch y modd y caiff y fenter ei chyllido yn y dyfodol a'i defnyddio.

- Mynegwyd pryderon y byddai effaith y dull newydd o godi ffïoedd ar gynghorau tref a chymuned yn rhy fawr ar gynghorau llai o faint.

## Tryloywder

- Croesawyd ein dull mwy tryloyw o weithio, ond gyda'r farn y byddai costau alldro gwirioneddol archwiliad yn cynorthwyo'r broses adolygu ar ôl archwiliad.

- Croesawyd y posibilrwydd y gallai ffïoedd gael eu had-dalu ond roedd y posibilrwydd y gellid codi ffïoedd ychwanegol yn destun pryder.

Bu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y themâu hyn wrth fynd ati gyda'r Archwilydd Cyffredinol i lunio fersiwn terfynol o gyllideb arfaethedig y Swyddfa ar gyfer y flwyddyn nesaf a'i Chynllun Ffïoedd drafft. Cafodd ein 'Hamcangyfrif', gan gynnwys y Cynllun Ffïoedd drafft, ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 23 Hydref a bu Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn craffu arno ar 5 Tachwedd.

Roedd adroddiad dilynol y Pwyllgor Cyllid yn cymeradwyo penderfyniad y Bwrdd i rewi cyfraddau ffïoedd archwilio am yr ail flwyddyn ac roedd yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ynghylch ein gallu i ymdopi â gwerth £1 filiwn o bwysau o ran costau yn 2016-17 trwy arbedion mewnol ac arbedion effeithlonrwydd. Roedd y pwyllgor yn croesawu'r ffaith i ni gynnwys fersiwn drafft o Gynllun Ffïoedd 2016-17, a'r adborth o'r ymgynghoriad ynghylch ffïoedd, gydag Amcangyfrif eleni.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod y pwyllgor yn fodlon â'n Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17. Gallwch ddarllen adroddiad llawn y Pwyllgor Cyllid ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

# Dulliau archwilio

Yn ein Hamcangyfrif, cyflwynwyd achos o blaid trawsnewid y modd yr ydym yn gweithio, gan gydnabod bod gofyn i ni ailfodelu ein dulliau archwilio mewn cyfnod o gyni.

Rydym wedi adolygu ein cyfuniadau o sgiliau mewn archwiliadau ariannol. Rydym yn bwriadu cynyddu nifer ein harchwilwyr dan hyfforddiant er mwyn lleihau'r graddau yr ydym yn defnyddio archwilwyr hollol gymwys i gynnal y gwiriadau archwilio mwyaf cyffredin. Bydd hynny'n helpu i gyfyngu ar gost archwiliad yn y tymor hwy.

Mae disgwyl i ddatblygiadau mewn technoleg gyfrifiadurol a grym cyfrifiadura, ynghyd â chostau storio a phrosesu llawer is, drawsnewid natur llawer o'n gwaith archwilio gweithredol dros y pump i 10 mlynedd nesaf. Mae angen i'r archwiliad blynyddol traddodiadol o ddatganiadau ariannol esblygu er mwyn cyd-fynd â'r cynnydd cyflym yn y wybodaeth sydd ar gael. Yn yr un modd â chyrff archwilio cyhoeddus eraill ar draws y DU, rydym yn archwilio'r ffordd orau o fanteisio ar ddatblygiadau yn y maes hwn sy'n symud yn ei flaen yn gyflym.

Mae ein dau faes busnes gweithredol, sef archwilio ariannol ac archwilio perfformiad, hefyd yn ceisio sicrhau bod cylchoedd archwilio a gwaith adrodd yn cydredeg yn well yn achos cyrff llywodraeth leol a gaiff eu harchwilio.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i wella effaith gwaith ardystio grantiau trwy symleiddio'r gofynion sydd ar yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym wedi cytuno, mewn egwyddor, ar fodel sy'n canolbwyntio mwy ar allbynnau a chanlyniadau gweithgarwch a gefnogir gan grantiau, gan symud o'r dull traddodiadol o gynnal archwiliad trwy wirio anfonebau. Dylai hynny roi dealltwriaeth well i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a gaiff eu harchwilio o'r gwahaniaeth y mae gweithgarwch a gefnogir gan grantiau yn ei wneud, gan leihau cost ardystio grantiau ar yr un pryd.

Ynghyd â'n partneriaid yn Arolygu Cymru, sef Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn, rydym yn awyddus i ddysgu o brofiad Adolygiad Crerar yn yr Alban o gydlynu'r defnydd a wneir o gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio. Rydym wedi ymrwymo i rannu ein gwybodaeth a'n profiadau er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau adolygu'n cael eu sianelu yn y modd mwyaf effeithiol a sicrhau bod ein hadnoddau cyfunol yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Rydym wedi sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer 2016-17 er mwyn datblygu ein dulliau archwilio i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hynny'n ein galluogi i gynnal archwiliadau peilot ar rai safleoedd wrth i ni fireinio ein dulliau gweithredu, heb drosglwyddo'r gost i'r safleoedd hynny. Rydym yn datgan yn glir ei bod yn debygol y bydd ffïoedd ychwanegol yn cael eu codi ar gyrff y llywodraeth ganolog o 2017-18 ymlaen mewn perthynas â'r gofyniad deddfwriaethol newydd hwn ar yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn parhau i alw am ddiddymu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 er mwyn ein galluogi i ddarparu profiad archwilio symlach, mwy effeithiol o safbwynt cyrff llywodraeth leol. Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio defnyddio model sydd eisoes wedi'i sefydlu ac sy'n gweithio'n dda yng nghyswllt cyrff y GIG. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghori ynghylch y mater hwn yn y flwyddyn newydd.

# Cyfraddau ffioedd archwilio

Caiff cyfraddau ffïoedd (hynny yw, y cyfraddau yr ydym yn eu codi fesul awr am bob elfen o waith archwilio) eu rhewi ar gyfer 2016-17, ynghyd â'r graddfeydd ffïoedd ar gyfer cyrff llywodraeth leol ar wahân i gynghorau tref a chymuned. Mae'r Cynllun Ffïoedd 2016-17 a gyhoeddwyd gennym ar gael ar ein gwefan.

Ni fydd cost o hyd am gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol; rydym yn annog cyrff nad ydynt dan orfodaeth i wneud hynny i gymryd rhan yn y fenter bwysig hon i leihau twyll yn y sector cyhoeddus.

Byddwn yn bwrw ymlaen â newidiadau i'r graddfeydd ffïoedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned, er mwyn adlewyrchu'n well y costau gwirioneddol sydd ynghlwm wrth gyflawni gwaith archwilio i'r cyrff hyn. Rydym wedi bod yn rhoi gwybod am y newidiadau arfaethedig ers peth amser, ac ni allwn bellach gyfiawnhau'r trefniadau presennol nad ydynt bob amser yn adennill y costau yr aethpwyd iddynt wrth gyflawni'r gwaith. Roedd adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol ar Reoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned a Thref yn nodi y bu gwelliant yn y graddau y mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn cyflwyno cyfrifon diwedd blwyddyn yn brydlon ers 2011-12, ond mae lle o hyd i'r sector cyfan wella ei waith llywodraethu a'i reolaeth ariannol.

# Tryloywder

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith i ni gael nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad gan gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff tebyg. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cynnwys adran ar wahân yn y Cynllun Ffïoedd, a fydd yn ymdrin yn benodol â'r cyrff hyn. Ar hyn o bryd, mae nifer o'r cyrff hyn yn cael cymhorthdal ffïoedd gennym, a gyflwynwyd yn 2014-15 yn dilyn newidiadau i'r gyfundrefn ffïoedd. Bellach, ni allwn gyfiawnhau parhau â'r cymorthdaliadau anghyson hyn ac rydym, felly, wedi egluro yn ein Hamcangyfrif y rhesymau dros ddod â'r rhain i ben yng nghyd-destun blaenoriaethau newydd. Rydym wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried addasu ei chyllid Cymorth Grant i'r cyrff hyn er mwyn gwneud iawn am y cymhorthdal a gollir, ac rydym yn falch o nodi argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ynghylch hynny, sef bod y 'Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i liniaru'r effaith ariannol ar Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn sgil penderfyniad Swyddfa Archwilio Cymru i roi'r gorau i'w drefniant cymhorthdal ffïoedd yn 2016-17'.

Mae cymhlethdodau'r gyfundrefn ffïoedd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn achosi gwrthdaro sylweddol rhwng ad-dalu ffïoedd pan fo'r gwaith wedi costio llai na'r disgwyl a chodi ffïoedd ychwanegol pan fo'r costau'n fwy na'r ffi a nodwyd. Rydym yn parhau i ystyried y ffordd orau o gydbwyso'r gwrthdaro hwn, ond mae'n debygol y gallai ddod yn fwy cyffredin i ni godi ffïoedd ychwanegol ar ddiwedd archwiliad. Byddwn yn gweithio'n agos yn y cyswllt hwn gyda'r cyrff a gaiff eu harchwilio a byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i drefniadau anfonebu, yn enwedig o ran y sefyllfa ar ddiwedd archwiliad. Cawn ein calonogi gan y ffaith bod y Pwyllgor Cyllid wedi nodi y bydd cymhlethdod y gyfundrefn ffïoedd statudol hon yn cael ei gynnwys yn ei Adroddiad Etifeddiaeth, er mwyn ei ystyried ymhellach yn y Cynulliad nesaf.

Rydym yn annog cyrff a gaiff eu harchwilio a rhanddeiliaid eraill i ystyried ein Hamcangyfrif a'n Cynllun Ffïoedd a chyflwyno unrhyw ymholiadau i'w cyfarwyddwr ymgysylltu enwebedig (lle bo hynny'n berthnasol) neu drwy post@archwilio.cymru. Bydd cyfarwyddwyr ymgysylltu yn mynd ati yn y flwyddyn newydd i drafod amcangyfrifon ynghylch ffïoedd gyda chyrff a gaiff eu harchwilio.

Diolch eto i'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ynghylch ffïoedd.

**Isobel Garner**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru